
YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

# **Week 12:** Wythnos Ffoaduriaid

## #addewidagobaith #hopeandpromise



**Arglwydd y daith**
**Gofynnwn i chi amddiffyn pawb sydd wedi ffoi o'u cartrefi.**
**Rhowch gryfder iddynt ar eu taith a caniatau y gallent ddarganfod llefydd arbennig o dosturi lle bydd posib gorffwys.**
**Amen**



Cynhelir wythnos ffoaduriaid yn flynyddol i ddathlu cyfraniadau, creadigaeth a gwytnwch ffoaduriaid, eleni dros wythnos 15ed i'r 21ain o Fehefin 2020.
Edrychwch ar www.refugeeweek.or.uk am fwy o wybodaeth.
Gweithredoedd Syml
Mae Gweithredoedd Syml yn yn weithredoedd dyddiol gallwn eu gwneud i gyd-sefyll gyda ffoaduriaid a gwneud cysylltiadau newydd yn ein cymunedau.
Dyma chydig o synaidau i chi ar gyfer Wythnos Ffoaduriaid 2020.




**Pe byddech chi yn gosod y rheolau, sut le fyddai eich ysgol, cymuned, tref, dinas neu'r blaned?**

Gallwch ddefnyddio'r Weithred Syml yma i ddilyn eich dychymyg, gan gychwyn yn fach neu fawr. Dyma rhai syniadau i chi:

- Dyluniwch, peintiwch, crefftwch neu ysgrifennwch gerdd i ddangos y byd yr hoffech chi weld.
- Ysgrifennwch gerdd neu stori byr gan gychwyn hefo'r geiriau "Dyfalwch os….." neu "Dyfalwch fyd lle mae….."

Dangoswch eich syniadau yn eich ffenestr, gyrrwch ef at ffrind, neu ei rannu gyda ni ar gyfryngau cymdeithasol (edrychwch ar gyfeiriadau Trydar ar waelod y dudalen) gan ddefnyddio'r hashnod #Dyfalu #GweithredSyml.




**Gwyliwch**


Gwyliwch stori Manar ar CBBC Newsround (teipiwch Manar i'r bocs chwilio CBBC) Plentyn 11 oed ydi Manar ac roedd rhaid i hi a'i theulu ffoi o Idlib, Syria a thrafeilio trwy wersyll ffoaduriaid yn Libanus ac yna ymlaen i Bradford.

**Darllenwch**

Gall darllen llyfr gyda'ch plentyn fod yn gychwyn ardderchog i drafodaeth am ddadleoli a rhoddi croeso. Mae digon o syniadau am lyfrau i blant o bob oed ar dudalen Simple Acts, ond i blant ifanc iawn edrychwch ar lyfr Chris Naylor-Ballesteros "The Suitcase" â'r pecyn gwaith gan gyhoeddwyr Nosy Crow.





**Lily and the Polar Bears**
**by Jion Sheibani**




**My Name is Not Refugee**
**by Kate Milner**




**The Journey**
**by Francesca Sanna**




**Refuge**
**by Anne Booth**



**Ysgrifennwch**

Geiriau o groeso. Dyluniwch boster croeso. Ysgrifennwch y gair croeso mewn ffordd creadigol. Allwch chi ei ysgrifennu mewn iaith wahanol? Efallai ei fod yn iaith sy'n bwysig i chi fel teulu? Mi fyddai'r wych os gallwch rannu eich posteri hefo ni ar Trydar.

**Sut gall hwn gysylltu â cwricwlwm yr ysgol?**

Efallai i chi ddysgu yn yr ysgol am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig am Hawliau Plant? Yn Erthygl 22 (Plant ffoaduriaid) mae'n dweud os yw plentyn yn chwilio am loches neu fod ganddynt statws ffoadur, mae'n rhaid i lywodraethau ddarparu iddynt amddiffyniad a chymorth priodol fel y gallant fwynhau hawliau'r Confensiwn. Mae'n ddyletswydd ar lywodraethau i gynorthwyo'r plant sydd wedi eu gwahanu oddi wrth eu rhieni fel iddynt gael eu aduno.

unicef

Refugee Week

SYNIADAU AM WEITHGAREDDAU WEDI EU ADDASU O" REFUGEE WEEK & COUNTERPOINTS ARTS".

# Follow us on twitter @churchinwales

@diostasaphedu @pobldewi @esgobaethbangor @llandaffed @swanbreced @apmdaly